# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Penodi Aelod Annibynnol i Swydd Wag ar y Pwyllgor Safonau /**
**Appointment of Independent Member to a Vacant Seat on the Standards Committee**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae budd i’r cyhoedd o ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>• Mae angen a disgwyliad am dryloywder wrth benodi aelodau cyfetholedig i’r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned.<br><br>• There is a requirement for and expectation of transparency in the appointment of co-opted members to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors.</td><td>Y budd i’r cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>• Mae disgwyliad rhesymol gan ymgeiswyr y bydd eu ffurflenni cais a’u hasesiadau’n cael eu trin yn gyfrinachol ac y bydd eu cyfweliadau’n cael eu cynnal yn breifat. Mae’n bosib y gellid cymryd camau am beidio â chwrdd â’r fath ddisgwyliad rhesymol i barchu cyfrinachedd.<br><br>• Mae’n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi neu ddatgelu ffurflenni cais fynd yn groes i ddisgwyliadau rhesymol yr ymgeiswyr am gyfrinachedd. Mae’n debygol y byddai cynnal proses ddethol sy’n hollol gyhoeddus yn niweidiol oherwydd mae’n rhesymol i ystyried y byddai’n arwain at lai o ymgeiswyr, os o gwbl, yn ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.<br><br>• Cydnabyddir fod y Panel wedi ei benodi i ymgymryd â rôl sicrwydd ar ran y Cyngor a’r cyhoedd ac, ar ôl dilyn y broses briodol, bydd yn gwneud ei argymhellion i’r Cyngor llawn a fydd yn cymeradwyo’r penodiadau terfynol. Er y bydd manylion am y penodiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi, nid yw datgelu gwybodaeth am ymgeiswyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn cefnogi’r</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | budd cyhoeddus.<br><br>• There is a reasonable expectation of confidentiality by the applicants that their application forms, assessments and interviews will be conducted in private. A breach of such a reasonable expectation of confidence is potentially actionable.<br><br>• Publication and disclosure of applications would be contrary to the reasonable expectations of the confidentiality of the candidates. A wholly public selection process is likely to be detrimental as it might reasonably result in fewer, or no, candidates applying for future vacancies.<br><br>• It is recognised that the Panel has been appointed to undertake the assurance role on behalf of the Council and the public and, following due process, will make its recommendations to full Council which will ratify the final appointments. Whilst the final appointments will be made public, the public interest is not served by disclosure of information about applicants and unsuccessful applicants. |
| **Argymhelliad** - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd a ddeuai yn sgil datgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |